

# DOLEN Y TAB 100

## 1-2 Ebrill 2022

**Bore Sul 3 Ebrill am 11**

**Oedfa Gymun Deuluol yng ngofal**

**Bethan Reynolds a phlant yr Ysgol Sul.**

Caiff yr oedfa ei ffrydio'n 'fyw' ar dudalen *Facebook* y capel a bydd modd gwyllo recordiad yn ddiweddarach naill ai ar *Facebook* neu ar *YouTube*.

**Cofiwch gofrestru sedd(i) erbyn 6 nos Wener.**

## YR OEDFAON NESAF

### Ebrill

- 10** Sul y Blodau yng nghwmni'r Parchedig Aled Edwards a Lyn West
- 17** Sul y Pasg a Chymun gyda'r Parchedig Eirian Rees a Rhiannon Humphreys
- 24** Allan James

### Mai

- 1** Ann ac Emlyn Davies
- 8** Y Parchedig Aled Edwards a Iestyn Morris
- 15** Sul Cymorth Cristnogol

## Hefyd ddydd Sul 3 Ebrill

### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Oedfa ar gyfer pumed Sul y Grawys dan arweiniad Delyth Wilson, Bro Gwendraeth.

### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

**15 Ebrill**

### Bore Gwener y Groglith

Oedfa ar y cyd i eglwysi'r gymuned leol yng nghapel Salem, Ton-teg. Os oes rhywun yn fodlon cyfrannu darlleniad, mynnwch air gyda Geraint Rees.

**CROESO I BAWB**

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 5 Ebrill. Os hoffech godi unrhyw fater i'w drafod, cysylltwch â'r Ysgrifennydd erbyn nos Lun 4 Ebrill naill ai drwy ffonio 01443 225205 neu drwy e-bost at [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) neu neges destun i 07710 237327.



**CASGLIAD Y PASG**



## DAETH HI'N AMSER CASGLU WYAU PASG ETO!

Bydd y capel ar agor **ar foreau lau a Sadwrn tan Ebrill 14<sup>eg</sup>** i dderbyn eich rhoddion o wyau Pasg a danteithion, neu gallwch ddod â nhw i'r oedfa ar fore Sul.

Bydd y cyfan yn cael ei rannu rhwng Cymorth i Ferched Cymru, hosteli Pobl, a phobl ifanc sydd newydd adael gofal.

**DIOLCH YN FAWR I CHI AM EICH  
CEFNOGAETH**

**Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**

## Taith Gymunedol Dros Heddwch

Am ddau o'r gloch bawn Sadwrn diwethaf, casglodd mintai o blant, pobl ifanc ac aelodau'r Tabernacl, ynghyd â phentrefwyr Efail Isaf a nifer o gŵn, o flaen neuadd y pentref i ddangos eu cefnogaeth i drigolion Wcráin yn wyneb ymosodiadau ffyrnig byddin Rwsia ar eu gwlad. A hithau'n bawn heulog braf, a mwyafri y cerddwyr wedi'u gwisgo mewn dillad glas a melyn, roedd yr olygfa'n un liwgar iawn mewn cyferbyniad i'r darluniau torcalonnus a welir ar ein sgriniau'n nosweithiol o'r ffoaduriaid yn ffoi mewn braw am eu bywydau. Rydym yn hynod o ddyledus i Eleri Mai ac Emma Shepherd am drefnu'r gwrthdystiad hwn o blaid heddwch, a hefyd i bawb fu'n cynorthwyo i baratoi'r lluniaeth ar ddiwedd y daith. Llwyddwyd i godi £210 tuag ar Apêl Wcráin DEC.

# Gair o Ddiolch

Diolch i bob un ohonoch sydd wedi mynd i'r drafferth i ymateb i'r gwahoddiad i fynegi barn am y ffordd orau ymlaen i ni yn y Tabernacl, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yr wythnos ddiwethaf i ollwng bron y cyfan o'r cyfyngiadau ar wisgo gorchudd wyneb dan do yn sgil y pandemig. Braff yw medru cyhoeddi bod dros 50 ohonoch wedi bwrw pleidlais dros un o'r dewisiadau. Hefyd, derbyniwyd nifer o awgrymiadau a sylwadau diddorol y bydd gofyn i'r Bwrdd gnoi cil drostynt pan fyddant yn cwrdd nos Fawrth nesaf, ar ôl iddynt gael amser i ystyried canfyddiadau'r arolwg. Cyhoeddir penderfyniad y Bwrdd ynghylch y camau nesaf tua chanol yr wythnos nesaf, mewn da bryd ar gyfer oedfa Sul y Blodau.

## 100 H.F.A.\*

Bydd y mwyaf craff yn eich plith wedi sylwi mai dyma'r canfed rhifyn o *Dolen y Tab*. Mae'n siŵr y byddai mathemategwyr megis Gareth Ff. Roberts a Keith Rowlands yn gallu egluro beth, os rhywbeth, yw arwyddocâd cyfriniol y rhif. Er enghraifft, ar y maes criced bydd batiwr sy'n colli ei wiced wedi iddo/i sgorio 99 yn gadael y maes yn benisel ac yn flin ei ysbryd, tra bydd y batiwr sy'n cyrraedd y cant yn chwifio'r bat yn fuddugoliaethus – er mai un rhediad yn unig sydd yna rhwng y ddau rif.

Beth bynnag am y rhinweddau cyfriniol, mae cyrraedd y garreg filltir hon yn ddigon o esgus i ni fwrw golwg yn ôl ar y rhifynnau cynharaf hynny yng ngwanwyn 2020. Gan fod cymaint wedi newid yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n anodd i lawer ohonom ddwyn i gof sut yn union roeddem yn cadw mewn cysylltiad ag aelodau'r capel cyn hynny, ac eithrio mynychu'r cwrdd ar y Sul. Ond cawn ein hatgoffa yn rhifyn cyntaf *Dolen y Tab* iddo gael ei esgor 'yn *absenoldeb y daflen wythnosol i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau a diolchiadau*' oedd wedi ei dosbarthu'n wythnosol dros flynyddoedd lawer yn yr oedfaon ar foreau Sul. Pan ymddangosodd y rhifyn cyntaf hwnnw, roedd ansicrwydd dybryd pryd fyddai'r Tabernacl yn ailagor ei ddrysau unwaith yn rhagor. Roedd y rhagolygon ar y pryd yn awgrymu y gallai fod yn wythnosau lawer, os nad yn fisoedd. Dyma pam y derbyniwyd yr awgrym i lunio cylchlythyr digidol i gadw pawb mewn cysylltiad â'i gilydd tra oedd y Tabernacl ar gau, gan fanteisio ar hwylustod e-bost, gwefan y Tabernacl a Facebook i gyrraedd mwyafrif llethol yr aelodau a chyfeillion, a threfnu bod y gweddill yn derbyn copi caled.

Wrth fwrw golwg yn ôl dros y rhifynnau cynharaf, yr hyn sy'n denu'r sylw yw absenoldeb oedfaon wedi eu trefnu gan y Tabernacl, ynghyd â diwydrwydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn wyneb yr argyfwng oedd wedi taro trigolion difreintiedig y gymuned. Dyma pryd y dechreuwyd nodi oedfaon a rhaglenni crefyddol oedd i'w darlledu ar y radio a'r teledu yn y Ddolen. Ond wedi wythnos neu ddwy, dechreuwyd cyhoeddi'n hoedfaon digidol ein hunain a barodd yn ddi-dor hyd at fis Medi y llynedd, a byth ers hynny mae nifer y digwyddiadau gaiff eu hysbysebu yn tyfu'n wythnosol gan godi'n gobeithion y byddwn yn dychwelyd i'r normalrwydd newydd yn fuan.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau ac am bob cefnogaeth.

\*

I'r sawl nad yw'n gyfarwydd â geirfa criced, ystyr HFA yw Heb Fod Allan.

## Sesiwn Flasu Ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar

yng nghwmni  
Sian Meini a Delwyn Sion.  
Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth.

**2.00 Pnawn Sadwrn 2 Ebrill**

Cyfle i eglwysi'r ardal gael treulio awr o gymdeithasu a chanu dros banded a chacen, gyda gwahoddiad arbennig i rai sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**Bydd yn bawn llawen, llawn hwyl!**

**Dewch i gefnogi**

Trefnir gan Undeb yr  
Annibynwyr, ac mae gwahoddiad  
cynnes i bawb

Rhagor o wybodaeth:  
Emlyn Davies 02920 891344 / 07900 491247  
[emlyn.pentyrch@btinternet.com](mailto:emlyn.pentyrch@btinternet.com)



**THE JUSTICE CONFERENCE**  
AR DAITH

Noson o wrando a dysgu gan leisiau lleol a byd-eang am alwad yr Ysgrifur i gyfiawnder.

**30 MAWRTH | CAERDYDD**  
CITY CHURCH CAERDYDD

7.30-9yh, 39-47 Ffordd Ddwyreiniol y Bontfaen, Caerdydd, CF11 9AD

Archebwch eich tocyn RHAD AC AM DDIM:  
[thejusticeconference.co.uk/on-tour](http://thejusticeconference.co.uk/on-tour)

Don't call tearfund  
Mewn partneriaeth gydag  
IJM JUST LOVE



**BABI TWM**

**Y Ganolfan, Capel Tabernacl** **10.00-11.30**

**7fed, 21ain o Fawrth, 4ydd o Ebrill**

**Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i plant/wyrion/wyresau**

Cyfle i bawb gymdeithasu, chwarae gyda theganau ynghyd a chael ychydig o fwyd sy'n addas i blant.